Cyngor Dinas Casnewydd

# Hysbysiad Preifatrwydd

| Maes Gwasanaeth a manylion cyswllt | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Pobl, Polisi a Thrawsnewid |
| **Manylion Cyswllt:** | Information.management@newport.gov.uk |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Cais Rhyddid Gwybodaeth |

## Ffynhonnell a chategorïau o wybodaeth sy'n cael eu prosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os cafwyd data personol o ffynhonnell heblaw chi eich hun (gwrthrych y data).

**Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael gafael ar y categorïau canlynol o'ch data personol:**

Ddim yn berthnasol gan fod data yn cael ei gael gan wrthrych y data

**Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:**

Ddim yn berthnasol

## Diben a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth

Yma, byddwn yn esbonio'r rheswm pam ein bod wedi casglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

**Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth:**

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i brosesu eich gwybodaeth bersonol

**Rhagor o fanylion am ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth a diben prosesu:**

Mae gan unigolion yr hawl i weld gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Cheisiadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw geisydd ddarparu enw a chyfeiriad gohebu/e-bost fel lleiafswm. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i brosesu ac ymateb i'r ceisiadau hyn.

**Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl**

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hynny, cysylltwch â'r person a enwir ar frig yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

*(Dim ond yn berthnasol i brosesu ar sail cydsyniad)*

**Mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth, os oes naill ai:**

a) Rhwymedigaeth gytundebol i wneud hynny, neu
b) Rhwymedigaeth statudol i wneud hynny.

*(Dim ond yn berthnasol os yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yw cyflawni contract neu ddyletswydd gyhoeddus/rhwymedigaeth dasg)*

**Mae canlyniadau peidio â darparu'r wybodaeth fel a ganlyn:**

Heb eich gwybodaeth bersonol ni fyddwn yn gallu cyflawni eich cais i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

**Data Categori Arbennig**
*(Dim ond yn berthnasol os yw data categori arbennig yn cael ei brosesu)*

Weithiau rydym yn prosesu categori arbennig sy'n cael mwy o ddiogelwch o dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm am hyn yw bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori arbennig yna mae angen i ni sefydlu sail gyfreithlon bellach ar gyfer prosesu, ac rydym wedi tynnu sylw at hyn isod:

Dewiswch sail gyfreithlon bellach.

**Gwneud penderfyniadau/proffilio awtomatig**
*(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar wrthrych y data)*

Weithiau rydyn ni'n defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau am y gwasanaeth rydyn ni'n ei gynnig i chi. Isod mae manylion pa systemau gwneud penderfyniadau neu broffilio yr ydym wedi'u defnyddio, a sut y gwnaed y penderfyniad:

Ddim yn berthnasol

## Pwy fydd yn cael gweld eich gwybodaeth bersonol?

**Cyngor Dinas Casnewydd** yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr Gwasanaethau Digidol
E-bost: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Gall rheolwyr data eraill hefyd fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:**

Bydd angen i staff perthnasol yn yr awdurdod gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol i ddarparu ymateb. Gall yr adrannau canlynol brosesu eich data personol; Gwasanaethau

Gwasanaethau Oedolion
Gwasanaethau Plant
Gwasanaethau Dinas
Addysg
Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd
Cyllid
Tai a Chymunedau
Pobl, Polisi a Thrawsnewid
Atal a Chynhwysiant
Cyfraith a Safonau
Adfywio a Datblygu Economaidd

**Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd:**

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag adrannau mewnol perthnasol uchod fel y gallant brosesu eich cais Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol a darparu ymateb.

**Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau allanol eraill:**

Dim ond yng Nghyngor Dinas Casnewydd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu

**Weithiau rydym yn defnyddio cymorth arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan. Gelwir y cwmnïau hyn yn 'broseswyr data'. Wrth brosesu eich data, rydym yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:**

Byddwn yn storio eich data ar system feddalwedd trydydd parti a ddarperir gan ddesg gymorth House on the Hill. Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolydd data.

**Manylion unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol o'ch gwybodaeth bersonol:**
*(os yw'n berthnasol)*

Ddim yn berthnasol

## Ceisiadau am wybodaeth

**Gall yr holl wybodaeth gofnodedig a gedwir gan Gyngor Dinas Casnewydd fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.**

Os hoffech ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, gallwch ofyn am gael copi o'n **Ffurflen Gais am Wybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/cais am Wybodaeth Amgylcheddol i ni, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

www.newport.gov.uk/FOI

## Eich Hawliau

**Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Sylwer nad yw pob un o'r hawliau hyn yn absoliwt a bydd angen i ni ystyried eich cais ar ôl ei dderbyn. Mae gennych hawl i ofyn:**

a) i gael eich data wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) i gael dileu eich data;
c) I gyfyngu ar brosesu eich data;
d) I arfer eich hawl i gludadwyedd data;
e) I gwrthwynebu'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

**Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:**

information.management@newport.gov.uk

**Gweithdrefn Gwyno**
Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio'ch data, mae gennych hawl i gwyno i ni. Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad hwn;
**Information.management@newport.gov.uk**

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad dilynol eich cwyn, gallwch wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni all yr ICO wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi dihysbyddu gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion y cyfnod cadw**

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd. Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth cyhyd ag sydd ei hangen, ac ar ôl hynny, bydd yn cael ei dileu neu ei dinistrio.